CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

gwynedd.llyw.cymru

CyngorGwyneddCouncil

CyngorGwynedd

cyngorgwyneddcouncil



# Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned

2025/26

**Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gweledig**

Lefel boddhad defnyddwyr Parciau Gwledig

88%

**Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gweledig**

Lefel boddhad cwsmer Canolfannau Hamdden

84.51%

**Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gweledig**

Cyfanswm nifer ymweliadau i'r Canolfannau Hamdden (Cronnus)

964,980

**Gwasanaeth Morwrol**

Rheoli a Gwasanaethu yn unol a gofynion Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a Chôd Diogelwch Morol

96%

**Gwasanaeth Morwrol**

Cytundebau Angorfeydd harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi

273

(cynnydd o 9% ers 2024)

**Gwasanaeth Morwrol**

BODDHAD CWSMER

Traethau - 70**%**
Harbyrau - 88**%**

**Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli**

Canran angorfeydd blynyddol yn Hafan Pwllheli a Doc Fictoria

96% Hafan
100% Doc Fictoria

**Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli**

Canran boddhad cwsmer yn Hafan Pwllheli

91%

(i fyny o 89%)

**Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli**

Bodlonrwydd cwsmer Doc Fictoria

98%

(i fyny o 69%)

**Gwasanaeth Archifau**

Bodlonrwydd cwsmer Gwasanaeth Archifau

91%

**Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

Cyfanswm sy'n ymweld ac ymgysylltu'n ddigidol â'r amgueddfeydd a'r orielau

1,212,877

**Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

% boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau

95%

**Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

Canran o gyfranogwyr yn cael budd drwy brosiect Celfyddydau Cymunedol

99%

**Gwasanaeth Llyfrgelloedd**

Nifer benthyciadau o'r Llyfrgelloedd 2025/26

452,845

**Gwasanaeth Llyfrgelloedd**

Bodlonrwydd Cwsmer Llyfrgelloedd 2025/26

98%

**Gwasanaeth Llyfrgelloedd**

Bodlonrwydd cwsmer Neuadd Dwyfor 2025/26

95%

Gwerthiant Tocynnau ac Incwm Neuadd Dwyfor 2025/26

Gwerthwyd 19,602 o docynnau

£201,565 o Incwm o werthiant tocynnau a Bwyd a Diod

**Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

74.1% o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol

**Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

311% cynnydd o waelodin 2024/5 mewn busnesau a mentrau yn llwyddo i dderbyn Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi ymrwymo i dalu cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr ac i ddefnyddio mwy o Gymraeg

97

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi Ymgysylltu'n fisol (Cyfartaledd 2025/26)

4,326

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi eu cefnogi i arbed arian a/neu cynyddu eu incwm

185

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pobl wedi eu cefnogi i waith

255

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pobl wedi cynyddu eu gallu i ennill cyflog da

130

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Buddsoddiad Mewn Rhaglenni Adfywio Canol Trefi

£3,398,526

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Nifer Unedau Masnachol sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd

Cefnogaeth wedi arwain at 4 eiddo mewn canol tref i ddod yn ôl i ddefnydd a gwella delwedd 6

**Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau**

Nifer Grwpiau lleol sydd yn derbyn cyngor neu cefnogaeth

335

**Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau**

Nifer o brosiectau cymunedol sydd yn derbyn cymorth I'w datblygu

337

Adran Economi a Chymuned

Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Mandadol

Diogelu – 90.1%
VAWDASV – 92.8%

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Parc Padarn Cyfartaledd boddhad cwsmer **94%** (Parciau 88%)

**Pennaeth:** Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


**Rheolwr Cyfrifol**: Carwyn Williams

**Pwrpas:** Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau

**Dangosydd Perfformiad:** % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

**Trosolwg o berfformiad:**

| Positif | Gwelliannau |
|---|---|
| • Good place for kids<br>• Amazing views and amazing walk with the dog<br>Beautiful place for a walk - wheelchair accessible<br>• Good parking and then excellent walks.<br>• I absolutely loved my walk around Lake Padarn — it's one of those places that perfectly captures the beauty of North Wales. The trail is well-marked and easy to follow, offering a mix of woodland paths, open lakeside stretches, and incredible mountain scenery, especially with Snowdon (Yr Wyddfa) in the background | • Basically it is a beautiful park with lots to see and discover, but at the moment a lot of construction and renovation work is going on, so not everything is open.<br>• Really disappointed that the museum was closed<br>• It would be great if Parc Padarn itself was better maintained, there are so many invasive plants and it doesn't seem that any work to reduce them is done? Is there a management plan? Maybe share this with the community , why not have community volunteer days etc? |




- Planhigion Ymledol – Yn ystod Mai 2025 fe fu cychod Truxtor yn Llyn Padarn i gychwyn ar y gwaith clirio'r chwyn ymledol. O fis Medi ymlaen roedd trefniant yn ei le gyda BSAC i ddeifwyr ddod i Llyn Padarn yn wirfoddol i barhau gyda'r gwaith clirio'r chwyn ymledol.
- Grantiau LUF, Pethau Pwysig, Cadw a Grid Cenedlaethol - Gwaith adfer yr Inclein wedi ei gwblhau yn ogystal a'r Bloc Croeso newydd. Rhan helaeth o'r gwaith i'r maes parcio wedi ei gwblhau. Tendr ar gyfer y Fire Queen a Hafod Owen wedi ei rannu a contractwyr wedi eu penodi ar gyfer cychwyn ar y gwaith adfer yn ystod 2026/27. Tendr hefyd wedi ei gwblhau ar gyfer gwaith dehongli natur yn y Bloc Croeso a gwelliannau i'r dehongli o fewn yr Ysbyty Chwarel a sied y Fire Queen.
- Grid Cenedlaethol & Amgueddfa Lechi – Grid Cenedlaethol gyda'r cynllun ail geblu wedi achosi i'r Parc i golli ¼ o'r maes parcio Gilfach Ddu a'r Rheilffordd wedi cau ar brydiau. Yr Amgueddfa Lechi wedi cau ar gyfer yr ail-ddatblygiad sydd wedi golygu fod rhai ymwelwyr i'r Parc wedi bod yn siomedig gyda'r cynnig oedd ar gael. Er hynny, mae'r Parc wedi creu tudalen Facebook newydd a wedi bod yn ymdrechu i rannu gwybodaeth gyda ymwelwyr dros y flwyddyn diwethaf.





# Parc Glynllifon Cyfartaledd boddhad cwsmer **82%** (Parciau 88%)

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


**Rheolwr Cyfrifol**: Carwyn Williams

**Pwrpas:** Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau

**Dangosydd Perfformiad:** % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

**Trosolwg o berfformiad:**

| Positif | Gwelliannau |
|---|---|
| • Fantastic day !! Beautiful gardens, lots of information around the park about the history of the house and gardens. Staff were all so friendly, food excellent. Park area right by cafe so kids could play whilst we had a paned. Great easter egg hunt that kept the kids engaged throughout the walk. Lovely little artisan shops in a little courtyard. We didn't manage to get around all of it so will definitely be back soon. Really pleasantly surprised at how lovely it was and can't believe we have never heard of it before.<br>• Beautiful and almost hidden gem. So many areas to explore, perfect for dog walking or just exploring on your own. I call it my happy place.<br>• The activities set up in the courtyard were fab for all ages (bean bags in buckets, frisbees through holes, knocking tins down, eggs in the tube etc) and everyone in our group from 8 to 80 enjoyed these. | • Very interesting park with a huge potential, if somebody is willing to invest here....<br>• Streams are clogged up and water features abandoned or poorly preserved. Many plants who have signs attached are either dead or cut down ! The natural forests are lovely but the areas that require human consideration have been given none.<br>• Cafe was closed due to staffing issues, which is a great loss to visitors, I'm sure many will come because there is a cafe on site. |




- Tal Mynediad - 2025/26 oedd y flwyddyn brysuraf o ran nifer ymwelwyr i'r Parc ers cychwyn cymryd cofnod.
- Digwyddiadau – Parc wedi cynnal Helfa Pasg cyntaf erioed yn 2025. Digwyddiad llwyddiannus gyda mwy yn ymweld dros penwythnos Pasg 2025 na chyfanswm ymweliadau Ebrill gyfan yn 2024. Ar gyfer yr Haf cynhaliwyd gemau Ffair Hwyl gyda adborth bositif iawn gan ymwelwyr a tenantiaid y Parc. Mi oedd incwm mis Awst 104% yn uwch na incwm Awst 2024.
- Gostyngiad ffi mynediad – Wedi cyflwyno hysbyseb ar gefn pob tocyn parcio Parc Padarn yn cynnig gostyngiad 10% i ffwrdd oddi ar unrhyw docyn diwrnod Parc Glynllifon os yn ymweld o fewn 7 diwrnod. Mae oddeutu 60,000 o docynnau parcio y flwyddyn yn cael eu gwerthu yn Parc Padarn, ac felly yn gyfle i hyrwyddo a marchnata Parc Glynllifon.
- Grantiau - Cais Datganiad o Ddiddordeb i'r Loteri am £2.6m wedi ei gyflwyno. Cais wedi bod yn llwyddiannus a gwahoddiad i gyflwyno cais am arian datblygu yn ystod 2026/27.
- Cynnal a chadw – Wardeniaid wedi bod yn gwella hygyrchedd y safle drwy osod dros 100 tunnell o wastraff llechi ar y llwybrau. Er y nifer diwrnodau o wyntoedd cryf a coed wedi syrthio o fewn y Parc dros y Gaeaf, y wardeinaid wedi llwyddo i gadw'r Parc yn agored drwy fod yn ddiwyd yn sicrhau fod y llwybrau'n ddiogel a clirio unrhyw lanast.



# Byw'n Iach Cyfartaledd boddhad cwsmer 84.51%

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Trystan Pritchard – Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach

**Pwrpas:** Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

**Dangosydd Perfformiad:** % Boddhad Cwsmer Byw'n Iach


**Trosolwg o berfformiad:**

Ffigyrau boddhad cwsmer diwedd 2025/26 yn dangos gostyngiad bychan 84.51% i 84.26%, ac yn rhoi sgôr cyffredinol o 4.21 allan 5.

Meysydd Cyfathrebu, Staff a Dosbarthiadau Ffitrwydd i gyd wedi gwella. 524 cwsmer wedi ymateb, gan ddarparu 1119 sylw gwahanol.

'Staff' yn parhau i berfformio orau (93.27%) ac Ystafell Ffitrwydd (78.02%) a Cyfleusterau'n (77.17%) yn sgorio isaf eto.

Mae'r 'Cyfleusterau' hefyd yn dangos y gostyngiad mwyaf - 2.5%, tra fod 'Dosbarthiadau Ffitrwydd' yn dangos y cynnydd mwyaf - 4.5%.




| Positif | Gwelliannau |
|---|---|
| **Bro Dysynni** - "The staff are really knowledgeable & helpful. I have struggled over the last few years getting my confidence & fitness back up. They have all been really supportive. Thank you."<br>**Glaslyn - "**The leisure centre has made a real difference to my life! The Aquafit sessions and the circuits keep me moving and the staff are brilliant! The other customers are friendly and it's lovely to have the library and the bank and the excellent cafe in the building!!!"<br>**Plas Ffrancon - "**Staff at Plas Ffrancon are FANTASTIC. They make the place what it is, creating a feeling of community and family! "<br>**Arfon - "**Mae defnydd yr holl aelodau staff o'r Gymraeg yn gyntaf yn ychwanegu at y teimlad cartrefol sy'n bodoli yn y ganolfan yng Nghaernarfon "<br>"Great facilities, great staff and very value for money! Da iawn pawb! "<br>**Pafiliwn - "**The quality of fitness classes have improved over the last 9 months,Jody,Paula and Meg's classes are fantastic."<br>**Penllyn** - "Diolch yn fawr am y gwasanaeth gwych." | **Arfon**: "Bywn Iach Arfon desperately needs modernisation inside and out the pool changing rooms especially "<br>**Bro Dysynni**: "A range of fitness classes and more of them "<br>**Dwyfor**: "Ystafelloedd newid. Mae y showers yn hen a gwan. Dim digon o adnodda i deulu (plant yn newid yn ystafelloedd oedolion). Y lloria yn medryd bod yn wlyb a llithrig ar draenia yn fydyr. "<br>**Glaslyn**: "mwy o offer eang yn y stafell ffitrwydd a pwysau - e.e. kettlebells"<br>**Pafiliwn**: " just need the equipment updating/replacing"<br>**Penllyn**: "I would get much better value for money if the gym opened earlier on more than one day a week it is not enough at present "<br>**Plas Ffrancon**: "More of the same fitness machines "<br>**Plas Silyn**: "Rhai dosbarthiadau yn boblogaidd ac yn llenwi'n sydyn..efallai cynnig mwy o ddosbarthiadau." |

# Byw'n Iach Cyfanswm nifer ymweliadau 964,980 (>5.6% o'i gymharu a 2024/25)

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Trystan Pritchard – Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach

**Pwrpas:** Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

**Dangosydd Perfformiad:** Cyfanswm Nifer Ymweliadau Byw'n Iach

**Trosolwg o berfformiad:**




Niferoedd ar y Cynllun Debyd Uniongyrchol (DU) , drwy Ebrill i Awst 2025, niferodd yn gyson a'r un cyfnod llynedd.

Yna dros 7 mis, tyfu yn y niferodd i 4,229 (Mawrth 24, 3,650) - cynnydd o 579.

- Niferodd Gwersi nofio – wedi sefydlogi yn dilyn rhestrau aros COVID. Rhaglenni 1:1 ac arbenigol yn tyfu ac yn cael eu Lansio ymhob pwll

- Incwm achlysurol – effaith cynnydd mewn cwsmeriaid DU ond angen mwy o wybodaeth wedi adroddiad mis 13. Gyriant cryf o fewn y cwmni i ad-ennill neu sicrhau parhad cwsmeriaid NERS.

- Ymweliadau cronnus i lawr. Amryw o resymau, ychydig llai o ddefnydd gan ysgolion, mwy o gwsmeriaid DU, ond prif rheswm newid yn y 'lluosydd' defnydd clwb yn y system gofnodi. Mae'n debyg fod hwn wedi bod rhy uchel yn hanesyddol, ac erbyn hyn, mae'r 'llogi bloc' wedi mynd, ac mae 'cynnyrch' gwahanol yn cael ei ddefnyddio hefo lluosydd llai, ond fwy cywir e.e peldroed 5 pob ochr cynt yn 50 fel defnyddiwr, nawr yn 15. Felly darlun cyfredol yn fwy cywir.

Canolfannau yn gyffredinol yn adrodd fod lleihad mewn defnydd ysgol a clybiau a nofio ysgolion yn lleihau yn bennaf o ran hyd y gwersi (10 wythnos yn aml).

- Prosiectau/Grantiau Canolfan Dwyfor – Gofod ffitrwydd arbennig wedi ei greu ac ar agor o 30 Ebrill – potensial am 150 aelod newydd a phrosiect cydweithio amlwg gyda Meddygon Teulu lleol.

- 64 aelod newydd ym Mangor wedi gosod yr offer Biocircuit
- Cae bob tywydd Bro Dysynni ar fin agor wedi grant o £300,000 Chwaraeon Cymru
- Prosiect ardal ffitrwydd Arfon ar fin cychwyn i drawsnewid y gampfa bresennol a galluogi mwy o hyfforddiant a dosbarthiadau wedi eu cyfeirio gan iechyd – pwyslais ar iechyd cyhoeddus amlwg yn strategaeth y cwmni
- Peilot gyda Tim Strôc Ysbyty Eryri wedi gwella dangosyddion iechyd allweddol 12 claf yn sylweddol ac felly cynllun i'w ehangu ar draws y sir.
- Datblygiadau pellach efo iechyd gan ganolbwyntio ar gleifion diabetes, clefyd y galon a rhai sydd dros eu pwysau ond ar restrau aros llawdriniaeth – aros am ganlyniad cais am £80k o arian GIG.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol


**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol:** Bryn Pritchard-Jones

**Pwrpas:** Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

**Dangosydd Perfformiad:** Cyfanswm cwsmeriaid angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd

**Trosolwg o Berfformiad:**










Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o stormydd a chyfnodau o wyntoedd cryfion a gafodd effaith sylweddol ar yr harbyrau. Torrodd rhai cychod yn rhydd o'u hangorfeydd, suddodd eraill a difrodwyd nifer o gymhorthion mordwyo. Ymatebodd swyddogion y Gwasanaeth ar fyr rybudd, yn aml y tu allan i oriau gwaith arferol, i gyfyngu neu arbed difrod pellach ac i sicrhau nad oedd llygredd yn gollwng i ddyfroedd yr harbwr.

Mae nifer y cwsmeriaid sydd â chytundeb angorfa wedi cynyddu 9% o'i gymharu â 2025, gan adlewyrchu'r galw cynyddol am gyfleusterau a gwasanaethau'r harbyrau. Mae buddsoddiad parhaus wedi gwella profiad defnyddwyr ac wedi gwneud yr harbyrau yn fwy deniadol, gan alluogi pob harbwr i ddenu cwsmeriaid newydd a chynyddu nifer y cychod ymwelwyr sy'n aros ar angorfeydd dros dro. Mae hyn yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn darparu incwm hanfodol ar gyfer y Gwasanaeth.

Mae sianeli mordwyo deinamig a siltio yn parhau i greu heriau sylweddol, gan effeithio ar allu'r gwasnaeth i ddarparu ardaloedd angorfeydd diogel a mynediad cwsmeriaid i'r harbyrau. Mae'r gwasanaeth yn monitor'r sianeli mordwyo a lefelau siltio yn agos ac yn gweithio i gynnal a rheoli angorfeydd diogel ac yn archwilio ffyrdd i liniaru effaith siltio ar fynediad.



Oherwydd y tywydd ansefydlog dros fisoedd y gaeaf, ynghyd a diffyg argaeledd contractwr i ail-leoli'r offer, mae canran y cymhorthion mordwyo yn eu safleoedd wedi gostwng i **81.5%.** Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn offer newydd, ac mae cynlluniau ar waith i'w lleoli yn ystod mis Ebrill a Mai pan fydd y tywydd yn fwy sefydlog.

Penodwyd unigolyn annibynnol i gynnal archwiliad o gydymffurfiaeth y Cyngor a gofynion y Côd Diogelwch Morol. Cwblhawyd yr archwiliad ym mis Chwefror gyda chanlyniad cadarnhaol iawn. Mae 'Datganiad Cydymffurfio' eisoes wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ynghyd â dogfennaeth y Côd - [Côd Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morwrol]

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol:** Bryn Pritchard-Jones

**Pwrpas:** Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

**Dangosydd Perfformiad:** Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd

**Trosolwg o Berfformiad:**




Roedd cyfran uchel o ymatebwyr (88%) yn nodi bod eu profiad o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn yn 'Dda iawn' neu'n 'Dda'. Roeddem yn derbyn sylwadau cyson am broffesiynoldeb ein swyddogion, gyda nifer yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn mynd 'uwchlaw a thu hwnt' i gynorthwyo cwsmeriaid. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd trafferthion yn codi yn ystod tywydd garw, neu pan oedd angen cyngor ynghylch mordwyo neu angori o fewn yr harbwr. Nododd nifer hefyd pa mor lân a thaclus yw'r harbyrau. Mae sylwadau cadarnhaol am y gofal cwsmer a ddarperir gan y tîm yn ymddangos yn rheolaidd yn ein harolygon boddhad, ac mae'n debygol mai hyn yw un o'r prif resymau ein bod yn llwyddo i gadw cwsmeriaid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mynegwyd pryderon hefyd ynglyn a siltio o fewn harbwr Bermo, gyda rhai cwsmeriaid yn cael anawsterau oherwydd dyfnderoedd bas.

**Swyddfeydd:** Mae'r cynlluniau a'r dyluniadau arfaethedig ar gyfer datblygu swyddfa harbwr newydd yn Aberdyfi wedi'u cwblhau ac wedi'u cyflwyno i Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri am sylwadau. Yn ogystal mae'r gwaith o wella adeilad swyddfa harbwr Porthmadog bellach wedi'i gwblhau, gan sicrhau bod gofodau a chyfleusterau addas ar gyfer y staff.

Mae cynllun gwellla'r lloc allanol yn harbwr Porthmadog hefyd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gwelliannau yn cynnwys gosod arwyneb concrit, giatiau diogelwch, ynghyd a ffens ymylol newydd. Rydym wedi derbyn nifer o sylwadau cadarnhaol am edrychiad y safle, yn enwedig gan drigolion sy'n byw ger yr harbwr.




**Jeti Aberdyfi**: Ym mis Mawrth cwblhawyd prosiect adnewyddu jeti pren harbwr Aberdyfi. Mae'r cynllun, arianwyd yn rhannol gan gyllid SPF, wedi trawsnewid y strwythur, gan adfer a chryfhau ei adeiladwaith, gwella diogelwch, hygyrchedd a hefyd gwella ei ymddangosiad cyffredinol.

**Cefnogaeth:** Yn ystod y cyfnod o dywydd heriol ar ddechrau mis Ionawr, darparodd y Gwasanaeth Morwrol gefnogaeth werthfawr i Wasanaethau Oedolion trwy gludo gofalwyr ar draws y sir, gan eu galluogi i barhau i ddarparu gofal i drigolion bregus.

**Staff:** Cwblhaodd un o staff yr adran Ddiploma Harbwrfeistr, a ariannwyd yn llawn gan y Cyngor. Mae'r cymhwyster yn cryfhau sgiliau a gwybodaeth dechnegol o fewn y tîm. Hefyd cwblhaodd aelodau arall o staff fordaith chwe wythnos ar draws Cefnfor yr Iwerydd - bydd y profiad a'r sgiliau a gafwyd yn ystod y daith, yn cyfrannu'n sylweddol at ei ddatblygiad personol, gan gefnogi a chryfhau ei waith o ddydd i ddydd.

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol:** Bryn Pritchard-Jones

**Pwrpas:** Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gyflwyno mesurau fyddai yn gwella mwyniant a diogelwch defnyddwyr ein traethau

**Dangosydd Perfformiad:** Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd

**Trosolwg o Berfformiad:**




Dros y flwyddyn, dywedodd 70% o'r ymatebwyr fod eu profiad o'r traethau yn 'Dda Iawn' neu'n 'Da', gan adlewyrchu lefel uchel o foddhad cyffredinol. Roedd canmoliaeth am ansawdd a glendid cyffredinol y traethau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at rai pryderon, yn enwedig yn ystod tymor brig yr haf, gan gynnwys sbwriel ar draethau, diffyg biniau a phresenoldeb baw cŵn. Cafwyd adborth cymysg ar berfformiad swyddogion tymhorol ar y prif draethau, gan dynnu sylw at ddiffyg gorfodi is-ddeddfau a rheolau mewn rhai achosion. Roedd hefyd rhwystredigaeth am barcio dros nos ar draethau a lefel y ffioedd. Roedd cŵn afreolus a phresenoldeb cŵn mewn parthau gwaharddedig hefyd yn bryder i lawer.

Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried o fewn fframwaith ehangach amgylcheddol ac arfordirol gyda'r nod o wella profiad defnyddwyr. Rydym wedi cael trafodaethau cynhyrchiol yn ddiweddar gyda Thîm Gorfodaeth y Cyngor i sicrhau gorfodaeth a phresenoldeb mwy amlwg ar draethau.

**Llygredd Olew:** Yn dilyn adroddiad o lygredd olew ar draeth Promenâd, Cricieth bu i swyddogion y gwasanaeth weithredu drwy gynnal ymgyrch lanhau ar y safle. Cynhaliwyd y gwaith mewn cydweithrediad a Chyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i'r sefyllfa. Cafodd y digwyddiad gryn gyhoeddusrwydd yn y wasg.



**Tirlithriadau:** Yn dilyn cyfnodau o law trwm bu dau dirlithriad sylweddol ar y clogwyni ar draeth Nefyn. Gweithredwyd mesurau diogelwch rhagweithiol gan gynnwys cau rhan o'r traeth a gosod arwyddion diogelwch clir. Mae'r sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n agos oherwydd y risg o ddirywiad pellach os bydd cyfnod arall o law trwm.



**Gwelliannau:** Mae'r gwasanaeth wedi bod yn ffodus iawn i sicrhau cyllid er mwyn gweithredu gwelliannau mewn rhai o'n cyrchfannau mwyaf poblogaidd. Mae gwaith wedi cychwyn ym mhrif fynedfa traeth Morfa Bychan i wella trefniadau mynediad a sicrhau bod y fynedfa yn parhau i fod yn ddiogel ac yn addas i ddefnyddwyr. Mae gwelliannau ar fin cael eu cwblhau ar Lôn Golff, Abersoch i gryfhau'r isadeiledd a gwella diogelwch defnyddwyr mewn lleoliad hynod o brysur a phoblogaidd. Yn ogystal mae gwaith wedi cychwyn i wella mynediad i draeth Marian-y-De, Pwllheli. Disgwylir i'r holl brosiectau gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mai, gan wella profiad ymwelwyr a diogelwch ar draws y safleoedd allweddol hyn.

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


**Rheolwr Cyfrifol**: Sarah Hattle

**Pwrpas :** Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

**Dangosydd Perfformiad: Canran o angorfeydd blynyddol yn Hafan a Harbwr Pwllheli**

**Trosolwg o Perfformiad: 96%**

Dros y flwyddyn 2025/26 mae angorfeydd Hafan wedi bod yn 96% yn llawn ac 86% yn yr Harbwr allanol. Nid yw hyn yn newid o 2024-25 ar gyfer yr Hafan. Ar gyfer yr harbwr allanol, er bod hyn yn edrych fel cynnydd o 10% (77% y llynedd) mewn gwirionedd, nid yw'n newid yn nifer y contractau angori. Yr hyn sydd wedi newid yw bod 5 angorfa harbwr allanol o 24-25 bellach yn anhygyrch oherwydd mwd, siltio a diffyg dŵr. Mae'r gofyniad i garthu a mwy o waddodiad yn parhau i fod y bygythiad mwyaf i'r Hafan.




Dros y flwyddyn rydym wedi gweithio gydag YGC i baratoi ceisiadau am Drwyddedau Morol i gwblhau carthu cyfalaf a charthu cynnal a chadw. Rydym yn parhau efo'r gwaith hyn. Mae'r ceisiadau i fod i gael eu cyflwyno Haf 2026.

Fel rhan o'r gwaith rydym hefyd wedi comisiynnu adroddiad yn ystyried safleoedd posib o fewn ffiniau'r harbwr ar gyfer adennill tir – a thrwy hynny waredu llaid yr harbwr. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Harbwr ym mis Mawrth er mwyn cynnig diweddariad ar gynlluniau carthu arfaethedig gan weithio yn agos gyda rhanddeilliaid a sefydliadau lleol.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol**: Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Sarah Hattle


**Pwrpas:** Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy’n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

**Dangosydd Perfformiad:** % Boddhad Cwsmeriaid

**Trosolwg o Berfformiad:**

Cafodd arolwg blynyddol boddhad cwsmeriaid ei gynnal ym mis Tachwedd. Ar gyfer cyfnod 2025, gwelwyd cynnydd o ran boddhad o safbwynt agweddau megis agwedd staff a chyfleusterau parcio. Serch hynny, gwelwyd lleihad ar agweddau megis ymddangosiad cyffredinol sydd yn adlewyrchu'r ffaith fod isadeiledd a chyfleusterau yn dyddio (yn cynnwys pontwns a chawodydd). Canfyddir hefyd bod dyfnder yn gwaethygu gyda mwy o siltio, er bod dyfnder y sianel yn cael ei gynnal.

Ar ôl gwrando ar adborth ein cwsmeriaid rydym wedi dechrau gweithio ar baratoi darpariaeth lolfa cwsmeriaid a fydd ar gael cyn uchafbwynt tymor 2026.




Mae ein cais am grant drwy Adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Rydym wedi derbyn cynnig grant o £67,688 ar gyfer ailosod y pontŵn pysgota masnachol a'r raciau tendr presennol. Mae’r gwaith wedi dechrau ers ddiwedd mis Chwefror 2026.

Fel rhan o'r prosiect hwn, gosodwyd pontŵns newydd ym mis Chwefror ac maent yn boblogaidd iawn gyda'r gymuned bysgota.

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Doc Fictoria (Hafan a Harbwr Pwllheli)


**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Sarah Hattle

**Pwrpas:** Sicrhau gwasanaeth o ansawdd yn Doc Fictoria sy’n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod y cyfleusterau yn cael ei reoli yn ddiogel.

**Dangosydd Perfformiad:** % Boddhad Cwsmer Doc Fictoria

**Trosolwg o berfformiad:**




Mae Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon (YHCHT) yn parhau i reoli Doc Fictoria ar ran Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu'r holl weithrediadau o ddydd i ddydd, tra bod Cyngor Gwynedd yn cadw cyfrifoldeb am y seilwaith.

Mae YHCHT wedi parhau i weithredu'r Doc ar ei gapasiti llawn a thrwy gydweithrediad ag YHCHT rydym wedi cytuno i adolygiad llawn o'r cytundeb rheoli hanesyddol gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Yn ystod 2025/6 gwelwyd cynnydd boddhad cwsmer i 98%. Gwelir fod cynnydd wedi bod ar draws holl agweddau, ag eithrio diogelwch. Credir fod adborth bositif am y Doc Feistr wedi cyfrannu at y cynnydd yma.

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Archifau

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Lynn Francis

**Pwrpas :** Gwarchod Archifau'r Sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau fel bod modd i bawb ddarganfod, dysgu a deall mwy am eu hunain a'u bro.

**Dangosydd Perfformiad: % defnyddwyr sy'n fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth**

**Trosolwg o Berfformiad:**

Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 cwblhaodd 1321 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 91% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth, 3% yn fodlon, 1% yn nodi nad oeddent yn fodlon nac anfodlon a 5% yn anfodlon.


Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn gadarnhaol: "Pawb yn hynod o awyddus i helpu", "Bu'r staff tu ôl i'r ddesg o gymorth amhrisiadwy i mi, "Very helpful – was a bit anxious about coming in, but staff friendly and approachable".

O'r rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau yn nodi eu hanfodlonrwydd gyda'r oriau agor, y safle we a'r diffyg deunydd sydd ar gael ar-lein:

"More opening hours are needed", "When using the online system, it's not very clear which archive / record office the information is held", "Rwyf yn cael trafferth ymweld â'r Archifdy byddai'n dda petai rhai dogfennau ar gael ar-lein"

Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Wladol yn sgil toriadau nôl yn 2016. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf bu'r Gwasanaeth yn ffodus i dderbyn arian grant SPF i gyflogi swyddog i ganolbwyntio ar ddigido casgliadau. Mi fydd y gwaith yn gosod sail i greu safle gwe newydd ble bydd modd cael mynediad at ddeunydd sydd wedi ei ddigido yn ogystal a rhoi mwy o wybodaeth am y casgliadau sydd yn ein gofal.

Hefyd yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Gwasanaeth grant gan Lywodraeth Cymru i wella'r ardaloedd cyhoeddus a chynaliadwyedd yr adeiladau. Bydd y gwelliannau hyn yn gwella hygyrchedd ac yn gwella profiad ein defnyddwyr.




Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a’r Celfyddydau

Yn ôl i’r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


**Rheolwr Cyfrifol**: Nêst Thomas

**Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau:** Hyrwyddo dealltwriaeth o’n hetifeddiaeth a’n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiel ym Mangor.

**Dangosydd Perfformiad: Nifer sy’n ymweld ac yn ymgysylltu ddigidol â'r Amgueddfeydd a'r Orielau**

**Trosolwg o berfformiad:**

- Amgueddfa Lloyd George: Ail agorwyd Pasg 2025 gydag arddangosfa newydd yn ei lle. Blaenoriaeth 2025/6 oedd edrych ar ddatblygu cynulleidfa a marchnata gyda chefnogaeth grant Llywodraeth y DU. Mae cynllun gweithredu yn ei le ac yn ystod 2026 mi fydd taflenni, arwyddion a buddsoddiadau eraill yn dwyn ffrwyth er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ar y safle i'n cymunedau, ysgolion ac ymwelwyr.
- Storiel: Yn sgil grant CELF (Rhwydwaith Orielau Gelf Gyfoes i Gymru) mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata wedi cael ei gwblhau gyda chynllun gweithredu yn ei le. Grant Llywodraeth y DU wedi cefnogi rolau swyddogion i gefnogi marchnata a gweithgareddau ymgysylltu er mwyn cynyddu niferoedd ymwelwyr ac ymgysylltu. Mae hyn wedi arwain at cynnydd o 14.8% yn nifer ymweliadau â Storiel. Hefyd gweithgareddau Cyfuno, gyda grant Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfleoedd i'n cymunedau gan gefnogi a phartneriaethu ac eraill drwy'r sir.
- Gweithgareddau ymgysylltu gyda grantiau wedi denu dros 2,000 o bobl i Storiel a darparu cyfleoedd i bron i 1,000 drwy'r sir. Dibyniaeth ar grantiau yn heriol ar gyfer cynllunio i’r dyfodol. Mae rôl y Gwasanaeth yn bwysig iawn i hwyluso a chyfeirio rhai at ei gilydd gan arwain at bartneriaethau newydd ee Sinema Tywyn a Menter Iaith Gwynedd.
- Cyfanswm cronnus ymweliadau yn unig rhwng Ebrill 2025 –Mawrth 2026 yn 34,859
- Cyfanswm Cronnus ymweliadau ac ymgysylltu'n ddigidol Ebrill 2025 - Mawrth 2026 yn 1,212,877 yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel tripadvisor, instragram a google.
- Er mwyn ymateb i’r diffyg yn y gwasanaeth, mae Caffi Siabod bellach wedi agor ystod Chwefror 2026.



# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Nêst Thomas

**Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau:** Hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiel ym Mangor

**Dangosydd Perfformiad: % Boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau**

**Trosolwg o berfformiad:**

**Adborth Amgueddfa Lloyd George**


Ers ail agor gydag arddangosfa newydd mae'r mwyafrif yn canmol y profiad a'r staff. Adroddiad Sequoia (Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchanta) yn nodi bod y mwyafrif efo ddiddordeb yn Lloyd George a Hanes Cymru. 22% yn byw yn lleol (LL53). Mae angen ei hyrwyddo'n well.

*"Angen mwy i blant" (bellach wedi ychwanegu hyn) / "My GCSE history grade is gonna thank me for coming here" / "far more interesting than anticipated" / "(Speeches) ...please bring them back." (hyn ar waith) / "I liked that we are encouraged to form our own opinion"/ Wedi dysgu llawer nad oeddwn yn gyfarwydd ohonynt yn flaenorol. Yr arddangosfa werth ei gweld a chael ymweld a'r cartref lle i magwyd ar y stryd yn fonws. Diolch am ail-agor i'r cyhoedd".*

**Adborth Storiel**

Mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata yn cadarnhau bod angen codi proffil Storiel; bod 48% yn ymweld yn reolaidd a 24% yn flynyddol. Nifer yn ei gweld fel cyfraniad pwysig i Fangor ac i dreftadaeth a diwylliant Gwynedd.

*"Diddorol iawn. Plantos a minnau yn mwynhau yn arw" / "We are so fortunate to have such a facility.." / "What a coup for STORIEL Iwanowski & Piech"/ "Really good exhibitions of modern Welsh artists in the galleries when we visited." / "We travelled some distance to see this ..... we learnt so much more about the background of promoting Welsh language culture to the youth (Dathlu 50 mlynedd o Gwaed ar y Sêr ar y cyd a Pontio) / Rhai yn gweld bod angen buddsoddi yn yr orielau hanes, a llawer yn canmol gweithgareddau i'r plant a'r teulu ond fod angen mwy ohonynt.*



# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


**Rheolwr Cyfrifol**: Nêst Thomas

**Pwrpas:** Hyrwyddo'r celfyddydau i bawb fel cyfrwng i wella lles trigolion Gwynedd

**Dangosydd Perfformiad: % o Gyfranogwyr yn cael budd drwy brosiect Celfyddydau Cymunedol**

**Trosolwg o berfformiad:**

- Darparwyd amrywiaeth o brosiectau trwy Wynedd ar gyfer oedrannau amrwyiol unai'n uniongyrchol neu trwy grantiau gan ganolbwyntio ar yr elfen llesiant, dysgu a mwynhad gan gefnogi nifer yn y sector drwy ddarparu gwaith.
- Adborth positif rhwng 97-100% yn seiliedig ar brosiectau fel Porthi Dre, Criw Celf i blant 7-11 oed; Stiwdio Lles i gefnogi bobl ifanc 18-30 oed (cynllun celf ar bresgripsiwn gyda grant Cyngor Celfyddydau mewn phartneriaeth â Chwmni Fran Wen a Phrifysgol Bangor); Crefft er Lles i oedolion; Sgwrs a Chân i rai mewn fflatiau gofal gyda Chanolfan William Mathias
- Darparwyd grantiau Celfyddydau Cymunedol; Noson Allan a Chefnogi'r Celfyddydau i sicrhau bod cyfleodd drwy Wynedd e.e. Croesor, Bangor, Nefyn, Bala a Llanbedr.
- Rôl bwysig gan y gwasanaeth i roi cyngor a chefnogaeth i unigolion a sefydliadau ac i annog partneriaethu. Cydweithir gyda nifer fel Gwasanaeth Ieuenctid, Cell B, Canolfan Gerdd William Mathias, Theatr Derek Williams, Dawns i Bawb, Theatr y Ddraig, Tîm Oed Gyfeillgar, Grŵp Llywio'r Celfyddydau ac Iechyd, Oriel Ysbyty Gwynedd ayyb.
- Noder ei bod yn her cael ymatebion a sylwadau ar gyfer gwerthusaid gan nifer.
- Gyda grant Llywodraeth y DU cynhaliwyd gweithdai a Chynhadledd Diwylliant gan ddod a'r sector ynghyd i adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol. Bellach mae comisiwn ar y gweill i asesiad economaidd a chymdeithasol o werth diwylliant i Wynedd.
- Adborth Stiwdio Lles - "*Roedd yr hyder a gefais drwy'r Stiwdio Lles yn caniatáu i mi fod yn fwy hyderus wrth reoli agweddau eraill ar fy mywyd roeddwn I'n cael trafferth efo nhw.*"



# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Rhian Evans

**Pwrpas :** Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

**Dangosydd Perfformiad: Nifer Benthyciadau Llyfrgelloedd Gwynedd**

**Trosolwg o Berfformiad:**

Parhaodd y patrwm sefydlog mewn benthyciadau ac aelodaeth actif yn ystod 2025–26, gyda gostyngiad bychan mewn benthyciadau ffisegol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar yr un pryd, parhaodd benthyciadau digidol i gynyddu fesul mis.

Cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo ar gyfer gwasanaeth BorrowBox i ysgolion cynradd Gwynedd, gan gynnwys cyflwyniadau yng nghyfarfodydd ardal Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd (Cynradd).

Fel rhan o raglen Sêr y Silffoedd, trefnwyd ymweliadau awduron a rhaglen eang o weithgareddau creadigol i blant, a ariannwyd drwy Gronfa SPF – Diwyllesiant. Cymerodd 999 o blant Gwynedd ran yn y Sialens Ddarllen Haf – Gardd o Straeon 2025.


Fel datblygiad newydd yn ystod 2025–26, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i oedolion mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys sesiynau Atgofion Jiwcbocs, nosweithiau cerddorol, digwyddiadau cwrdd ag awduron a sesiynau crefft. Bu cyllid SPF – Diwyllesiant yn allweddol wrth alluogi'r gweithgareddau hyn.

Mae'r cynllun #CroesoCynnes bellach ar waith ym mhob un o Lyfrgelloedd Gwynedd, gan gynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis chwarae gwyddbwyll, jig-sos a chôr dementia.

Parhawyd hefyd i ddosbarthu cardiau SIM a thalebau data i unigolion sy'n wynebu argyfwng digidol drwy Gynllun Databank Cenedlaethol.

Mae'r sesiynau Cymorth Digidol 1:1 wedi parhau'n sefydlog, er gwaethaf colli sesiynau AbilityNet a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026. Yn ogystal, bu nifer o staff rheng flaen yn cychwyn hyfforddiant ar-lein Money Guiders

Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwasanaeth hefyd yn cydweithio ar beilot Taith Tywyn, sef gwasanaeth cludiant cymunedol ar gyfer ardal Tywyn.




Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Rhian Evans

**Pwrpas:** Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

**Dangosydd Perfformiad:**


**Trosolwg o berfformiad % Bodlonrwydd Cwsmer**

I gyd-fynd hefo 7fed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd rydym wedi cynnal arolwg cynhwysfawr yn ystod Mis Tachwedd 2025 a oedd yn cynnwys arolwg cyffredinol ymhob Llyfrgell yn ogystal ac arolwg penodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Cafwyd 610 o ymatebion

Dyma rai canlyniadau:
96% yn hollol fodlon gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y llyfrgell
90% yn credu bod defnyddio llyfrgell leol wedi eu helpu i ddysgu rhywbeth neu ddatblygu sgiliau newydd
69% yn credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu gyda'u iechyd a'ch lles.
98% yn credu bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld
90% yn credu bod defnyddio'r llyfrgell hon wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywyd
79% yn credu bod y cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth yn dda neu da iawn
88% yn credu bod y dewis o lyfrau yn dda neu da iawn
98% yn credu bod safon y gofal cwsmer yn dda neu da iawn
51% wedi ymweld â Llyfrgell i fenthyg llyfr neu ddarllen
22% wedi ymweld i ddefnyddio cyfrifiadur, argraffu neu ddefnyddio wifi
34% wedi ymweld i fynychu digwyddiad neu am reswm cymdeithasol
12% wedi ymweld i dderbyn cymorth neu chwilio am wybodaeth

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbynwyd yn gadarnhaol ond lle cafwyd sylwadau adeiladol rydym yn trio rhoi ystyriaeth iddynt fel rhan o broses gwella y gwasanaeth
"I can read books and play and eat biscuits"
"Pa mor gartrefol ydi yma a bod pawb mor barod i helpu" "Rhan defnyddiol a phwysig o'r gymuned"
"my favourite place to go to feel calm" "Y jigsos! Gwneud byd o les a thawelu'r meddwl."
"This library seems to be very child orientated. No groups for adults which is a shame i.e. Talking groups, Reading groups"
"My life would be so much poorer without the library home delivery service. Thank you!"

"I use the library regularly for a variety of reasons - homeschooling, poetry group, writing group, children's activitiesm, health and wellbeing sources. The library has been an essential place for my and my children's socialising, education and wellbeing"




Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Rhian Evans

**Pwrpas :** ***Darparu lle cymdeithasol sy'n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy'r celfyddydau a diwylliant.***

**Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Neuadd Dwyfor**

**Trosolwg o Berfformiad:**

Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd 1,191 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 95% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth.


Ers mis Ionawr rydym wedi cyflwyno holiadur boddhad cwsmer newydd a fydd yn rhoi mewnwelediad i ni ar bwyntiau megis sut mae'n cwsmeriaid yn cyrraedd y Neuadd, ac a ydynt yn ymweld a unrhyw fusnes arall ym Mhwllheli cyn neu ar ôl y perfformiad

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yn gadarnhaol, megis:
"Neis gweld rwbath gwahanol yna"
"Roedd o'n noson ffantastic! Efallai'r gallwch chi gynnal dwy noson y tro nesaf?! Roedd hi'n braf gweld y Neuadd mor llawn! Diolch am drefnu x"

Mae'r sylwadau negyddol yn aml am ddefnyddwyr eraill yn tarfu ar fwynhad trwy siarad yn ystod y ffilm, neu y tymheredd yn rhy boeth/rhy oer, diffygion cynnig bwyd a diod a diffygion yn ein offer technegol yn enwedig y system sain. Fodd bynnag, lle bo sylwadau adeiladol, rydym yn ceisio rhoi ystyriaeth iddynt, fel rhan o'n prosesau gwella perfformiad parhaus.

Bu i Neuadd Dwyfor gael ei enwebu ar gyfer gwobr sinema annibynol y flwyddyn ac er i ni beidio dod i'r brig derbynwyd sylwadau cadarnhaol am ein cynnig
"Awyrgylch bendigedig o gymuned leol. Rhywbeth i bawb. Staff cyfeillgar a chymwynasgar, bob amser yn croesawu"
"Wonderful local community atmosphere. Something for everyone. Friendly helpful staff always welcoming"

Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio i ail sefydlu y grŵp defnyddwyr a fydd yn rhoi adborth ac awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer cynllunio rhaglenni i'r dyfodol.




Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Rhian Evans

**Pwrpas :** ***Darparu lle cymdeithasol sy'n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy'r celfyddydau a diwylliant.***

**Dangosydd Perfformiad: Gwerthiant Tocynnau ac Incwm Neuadd Dwyfor**

**Trosolwg o Berfformiad:**


Un o'n blaenoriaethau strategol oedd gwella amrywiaeth y rhaglen drwy gynnig rhagor o ddigwyddiadau cerddorol byw, yn ogystal â'r cynnig arferol o ffilmiau a sioeau theatr. Dengys poblogrwydd y digwyddiadau hyn fod y flaenoriaeth hon yn llwyddiannus, ac ein bod yn ymateb yn gadarnhaol i batrymau ymwelwyr a disgwyliadau ein cynulleidfaoedd.


Cynhaliwyd nifer o nosweithiau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiadau gan Al Lewis, Cabarela, Welsh of the West End, yn ogystal â nosweithiau comedi lle'r oedd y neuadd yn llawn. Yn sgil llwyddiant perfformiad Welsh of the West End ym mis Mai 2025, mae'r grŵp wedi'i gadarnhau ar gyfer dau berfformiad ychwanegol yn 2026.

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, cyflwynwyd digwyddiadau crefftau i oedolion fel ychwanegiad newydd i'r rhaglen, ynghyd â sefydlu Clwb Darllen – O'r Llyfr i'r Ffilm, gan ehangu'r cynnig diwylliannol a chymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y costau sy'n gysylltiedig â chynnal cynhyrchiadau. O ganlyniad, er bod incwm ar gynnydd, rhaid cydnabod bod rhaid i ni fod yn wyliadwrus o gostau cynyddol. Rydym wedi dechrau cynnig yswiriant wrth werthu tocynnau sydd golygu ffrwd ychwanegol o Incwm.

Mae'r datblygiadau hyn i gyd yn cyfrannu at adnewyddu cynnig Neuadd Dwyfor ac yn cefnogi'r nod o apelio at gynulleidfaoedd newydd tra'n cynnal cefnogaeth cynulleidfaoedd presennol.




| **Cyfanswm Cronnus Gwerthiant Tocynnau & Incwm** | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** | **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** | **Ionawr** | **Chwefror** | **Mawrth** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronnus Gwerthiant Tocynnau 2025/26 | 2,178 | 3,753 | 5,726 | 7,586 | 8,918 | 10,019 | 11,723 | 12,731 | 15,172 | 17115 | 18578 | 19602 |
| Cronnus Incwm gwerthiant tocynnau a bwyd a diod 2025/26 | £15,176 | £34,636 | £48,809 | £73,200 | £88,207 | £101,176 | £118,002 | £130,634 | £152,650 | £168,634 | £186,369 | £201,565 |
| *Cronnus Gwerthiant Tocynnau 2024/25* | 1,737 | 2,656 | 3,721 | 6,136 | 9,296 | 10,131 | 11,476 | 13,481 | 15,989 | 17002 | 18449 | 19924 |
| Cronnus Incwm gwerthiant tocynnau a bwyd a diod 2024/25 | £16,449 | £26,682 | £37,630 | £56,059 | £83,288 | £92,001 | £105,113 | £121,986 | £143,679 | £155,568 | £173,891 | £191,266 |

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans
**Rheolwr Cyfrifol**: Sian Jones
**Pwrpas:** Cefnogi economi ymweld cynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant
**Dangosydd Perfformiad:** Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol
**Trosolwg o Berfformiad:**

**Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol**

Cesglir y data mewn arolwg blynyddol caiff ei gwblhau gan drigolion y sir trwy lenwi holiadur ar wefan y Cyngor. Yr arolwg wedi bod yn fyw ar-lein o ddiwedd Hydref 2025 a tan ganol Tachwedd 2025. Cyfnod sydd yn cyd-fynd gyda amseru ymchwil tebyg a gynhaliwyd yn sirol yn 2023 a 2024.

Yn 2025 bu i 996 o drigolion y sir ymateb ir arolwg ar lein ar wefan y Cyngor i ganfod barn trigolion am effaith twristiaeth ar eu hardal hwy o Wynedd. Gofynnir i'r ymatebwyr nodi yn gyffredinol os ydynt yn credu bod twristiaeth yn cael effaith bositif, negyddol neu niwtral ar eu cymuned. Bu I 74.1 % nodi positif , 14.3% yn niwtral a 10.8% negatif
Nodwyd yn 2024 – 74.3% nodi positif, 12.1% yn niwtral a 12.7% yn negatif
yn 2023 – 75.8% nodi positif, 10.8% yn niwtral a 13.4 % yn negatif
I'r rhai fyddai'n nodi fod canlyniadau negyddol yn deillio o dwristiaeth yn eu hardal bydd cyfle iddynt nodi pa broblemau sydd yn codi ac i ba raddau roeddynt yn broblem.
(fwy o adborth i weld yn y tabl)
Caiff cwestiynau penodol eu gofyn yn arolwg 2025 am y dynodiad UNESCO Llechi, Cynllun Arosfan, digwyddiadau, tai haf, yr iaith Gymraeg a'r lefi twristiaeth a bydd modd hidlo'r canlyniadau lawr i lefel yr 13 Ardal adfywio, Ardal AHNE, Ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oddi fewn i Wynedd ar 6 Parth o fewn y dynodiad Llechi UNESCO.
Bydd y canlyniadau yn gyfrwng pwysig i siapio'r weledigaeth twristiaeth cynaliadwy, cynlluniau gwaith a bidiau am arian ir dyfodol. Sylfaenir fformat yr holiadur ar fodelau ymchwil rhyngwladol i'r maes barn trigolion ar dwristiaeth ac ymchwil peilot y bu i'r Cyngor cymryd rhan ynddo trwy Croeso Cymru yn 2023.



# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Sian Jones

**Pwrpas :** Cefnogi economi ymweld cynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant .

**Dangosydd Perfformiad: Canran cynnydd mewn busnesau a mentrau yn llwyddo i dderbyn Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35**

**Trosolwg o Berfformiad:**

70 wedi arwyddo i fyny i Addewid Busnes Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 35 rhwng Ebrill-Mawrth 2025/26 Canran cynnydd o 311% o nifer y gwaelodlin a sefydlwyd yn 2024-25.
Mae 7 egwyddor mae angen i'r busnes arwyddo i fyny iddo cyn gall busnes wneud cais i arwyddo i fyny i'r addewid:

- Cefnogi yn lleol
- Dathlu traddodiadau a diwylliant lleol
- Hyrwyddo teithio cynaliadwy
- Lleihau effeithiau amgylcheddol eich busnes
- Gwarchodwch eich cymunedau lleol
- Annog Diogelwch ein mynyddoedd ac arfordir
- Arwain ar ddiwylliant positif o gyfathrebu digidol

Trwy ymrwymo i'r Addewid hwn, bydd y busnes yn chwarae rhan bwysig wrth warchod harddwch naturiol a phwysigrwydd diwylliannol Gwynedd ac Eryri – ac yn cyfrannu at economi ymwelwyr cynaliadwy.

Mae **Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35** yn rhan o becyn o adnoddau i godi ymwybyddiaeth ac i wreiddio egwyddorion economi ymweld cynaliadwy Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sydd yn cynnwys:

- **Modiwl Egwyddorion twristiaeth cynaliadwy Gwynedd ac Eryri** sydd wedi ei gynnwys o'r newydd ar **Platfform Cynllun Llysgennad Gwynedd ac Eryri** 511 wedi cofrestru ar y cynllun Llysgennad sirol. 259 wedi pasio tri modiwl lefel Efydd, 172 wedi pasio 6 modiwl i lefel Arian a 152 wedi pasio 9 neu fwy o fodiwlau i gyrraedd lefel Aur)
- Cod ymarfer da i'r rhai sydd yn ymweld ar ardal - **Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri 35** Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri | Eryri
- **Achrediad / Addewid Busnes Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035** Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri | Eryri
- **Bwletin Gwybodaeth Gwynedd ac Eryri 35**

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

**Pennaeth:** Sioned Williams

**Rheolwr Cyfrifol**: Dylan Griffiths

**Pwrpas :** Gwella’r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

**Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMRWYMO I DALU CYFLOG BYW GO IAWN I’W GWEITHWYR AC I DDEFNYDDIO MWY O GYMRAEG**

(Dangosydd o effaith darparu cymorth gan y Cyngor – mae pob busnes yn derbyn arian yn gorfod ymrwymo i dalu’r cyflog byw go iawn a defnyddio mwy o Gymraeg)

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae ymdrech barhaus gan y Gwasanaeth i hyrwyddo’r buddion sy’n dod i fentrau o ddefnyddio’r Gymraeg a talu’r cyflog byw go iawn.


Mae’r Gwasanaeth hefyd yn gofyn i unrhyw fusnes sy’n derbyn cynnig o gymorth ariannol gan y Cyngor yn gorfod ymrwymo i gynyddu eu defnydd o’r Gymraeg ac i weithio tuag at dalu’r cyflog byw go iawn (isafswm o £13.45) i’w gweithwyr. Dyma 54 o fusnesau wedi ymrwymo i’n gofynion yn 2024/25.


Sicrhawyd mwy o arian i ddarparu cymorth i fusnesau dechrau’r haf ac mae cynnig o grant wedi ei ryddhau i 118 o fentrau lleol eleni.


Mae’r nifer yn ymddangos yn y dangosydd pan fydd busnes yn hawlio eu grant. Hyd yn hyn mae 97 hawliad wedi dod i law.

-------------

Mae’r nifer o fusnesau *yn* talu’r cyflog byw go iawn ac *yn* defnyddio mwy o Gymraeg yn cael ei fonitro ar ôl cwblhau’r gwaith ariannwyd gan y Cyngor.




Allwedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a’r llinell yn dangos cyfanswm cronnus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae’r flwyddyn flaenorol (glas) a’r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

**Pennaeth:** Sioned Williams

**Rheolwr Cyfrifol**: Dylan Griffiths

**Pwrpas :** Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

**Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMGYSYLLTU A BUSNESAU WEDI DERBYN CEFNOGAETH**
(Data rheolaethol sy'n cyfrif gwaith y Gwasanaeth yn annog busnesau i ymwneud â cymorth busnes a'r mentrau sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor.)

**Trosolwg o Berfformiad:**

Ar gyfartaledd mae 4,326 o fentrau wedi ymgysylltu yn fisol gyda'r Gwasanaeth yn ystod 2025/26.

Mae busnesau wedi dod i gyswllt drwy eu bod yn derbyn gwybodaeth drwy law ein bwletinau gwybodaeth rheolaidd neu ym mynychu gweithgaredd wedi ei drefnu gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd Wythnos Busnes llwyddiannus ynghyd â cyfres o sesiynau galw heibio i fusnesau, a cyfres o ddigwyddiadau mewn ymateb i faterion o bwys i busnesau lleol.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth i ddatblygu economi Gwynedd fydd yn arwain ein gwaith dros y degawd nesaf i gefnogi mentrau Gwynedd a sicrhau economi sydd yn cyflawni i'n bobl a'n cymunedau lleol.

Rhoddwyd cymorth i 185 o fusnesau gan y Gwasanaeth yn ystod 2025/26 gan gynnwys darparu £1.3 miliwm o help ariannol i fentrau lleihau eu costau neu gynyddu eu incwm.

Mae enghreifftiau o gynlluniau sydd wedi eu cefnogi eleni yn cynnwys:

- Cwmni bywyd lleol yn cychwyn gwerthu prydau wedi eu rhewi
- Garej lleol yn cychwyn trwsio ceir trydan / hybrid
- Help i brynu offer torri laser i newid dull cynhyrchu cwmni hir sefydlog yn y sir

Darparwyd help ariannol i 56 o fusnesau yn Arfon, 24 yn Dwyfor a 36 ym Meirionnydd.

Dyma adborth un busnes sydd wedi derbyn cymorth:

*'Many thanks for all your help, and for the support of Cyngor Gwynedd to develop my business and increase resilience. It is deeply appreciated. The project is progressing well. Only yesterday I had a cold enquiry via my online course trailer on YouTube from Brazil! The international market is opening up, little by little.'* Ruani Higson o Dyffryn Nantlle (www.raunihigson.co.uk) sydd enter newydd i gynnig hyfforddiant gemwaith ar-



Dyma lun o Mirain Glyn o Llangybi sydd wedi derbyn cyfraniad o £4.5k tuag at odyn newydd fydd yn caniatáu ymestyn ystod cynnyrch ei busnes www.prydferthflwch.com.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

**Pennaeth:** Sioned Williams

**Rheolwr Cyfrifol**: Dylan Griffiths

**Pwrpas :** Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

**Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI EU CEFNOGI I WAITH**

(Dangosydd o effaith cymorth y Cyngor i helpu trigolion oed gwaith sydd yn economaidd anweithgar i sicrhau swydd)

**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae'n tîm Gwaith Gwynedd yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd wedi bod allan o waith am gyfnod hir am resymau megis salwch neu anabledd. Mae'r unigolion angen cymorth dwys i'w cynorthwyo i fod yn barod am waith. Llywodraeth Cymru sydd yn talu am gost y gwaith.


Yn 2025/26 roedd 255 o bobl lleol wedi sicrhau swydd o ganlyniad i'r help maent wedi ei gael gan Gwaith Gwynedd. Roedd y nifer 34 yn fwy nac yn 2024/25.

Dyma hanes un o fuddiolwyr Gwaith Gwynedd yn 2025/26:

Roedd Seimon yn ddigartref, yn cysgu ar y stryd, heb unrhyw incwm pan gyfeiriodd ei hun i Gwaith Gwynedd ar gyngor y Ganolfan Byd Gwaith.

Cefnogwyd Seimon i gael mynediad brys at y tîm digartrefedd lleol yna, wedi iddo gael mynediad at lety dros dro, dyma Gwaith Gwynedd yn ei helpu i ymgeisio am swyddi yn lleol ac i baratoi ar gyfer cyfweliad.

O ganlyniad o fewn mis dyma Seimon yn symud o gysgu ar y stryd i lety dros dro ac i sicrhau swydd. I wneud yn siŵr fod ei lwyddiant yn gynaliadwy dyma Gwaith Gwynedd hefyd yn darparu tocyn bws iddo fel ei fod yn gallu teithio i'r gwaith hyd iddo dderbyn ei gyflog gyntaf.




Allwedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a'r llinell yn dangos cyfanswm cronnus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae'r flwyddyn flaenorol (glas) a'r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos i ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

**Pennaeth:** Sioned Williams

**Rheolwr Cyfrifol**: Dylan Griffiths

**Pwrpas :** Gwella’r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

**Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI CYNYDDU EU GALLU I ENNILL CYFLOG DA**

(Dangosydd o effaith cymorth y Cyngor i helpu trigolion mewn gwaith gael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swydd gwell neu datrys problem yn nhw rhag cynyddu eu oriau)

**Trosolwg o Berfformiad:**


Mae trigolion sy’n gweithio llai na’r hyn allent yn nodwedd o’r farchnad llafur yn y sir. Mae hefyd llawer o drigolion sydd ddim ennill cyflog sy’n ddigon i gyfarch eu anghenion.

Mae’r Cyngor wedi ymestyn sgôp Gwaith Gwynedd i gynnwys help i drigolion sydd eisoes yn gweithio oresgyn problem sy’n eu hatal rhag gweithio mwy o oriau neu gael y sgiliau sydd eu hangen i gael swydd sy’n talu’n well.

O ganlyniad i lwyddiant y gwaith mae adnoddau pellach i barhau ein gweithgaredd yn y maes pwysig yma wedi ei sicrhau.

Roedd 130 o bobl Gwynedd gyda gwell gallu i ennill cyflog da o ganlyniad i gefnogaeth y Gwasanaeth yn 2025/26. Roedd yn gychwyn yr haf cyn derbyn cadarnhad o gyllid o’r SPF o ganlyniad roedd gostyngiad yn ein gweithgaredd ar gychwyn y flwyddyn ond bellach mae momentwm y gwaith wedi ailgydied.

Mae’r newid i ffwrdd o arian refeniw yn y Gronfa Twf Lleol yn peryglu dyfodol y gwaith yma.




Allwedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a’r llinell yn dangos cyfanswm cronnus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae’r flwyddyn flaenorol (glas) a’r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Esyllt Rhys Jones


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pwrpas:** Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

**Mesurydd Perfformiad: Buddsoddiad mewn Rhaglenni Adfywio Canol Trefi**

**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am dargedu cefnogaeth ariannol o ffynonellau ariannu amrywiol er mwyn buddsoddi mewn cynlluniau adfywio canolfannau masnachol. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddod a swyddogion/partneriaid allweddol at eu gilydd i ddatblygu a ffurfio unrhyw gynllun. Mae'r mesurydd yma yn seiliedig ar y llythyrau cynnig a dderbynnir gan ffrwd cyllido sydd yn golygu fod modd symud o wedd datblygol i wedd gweithredu a'r gallu gan y Gwasanaeth i ddilyn camau Rheoli Prosiect yn ffurfiol. Mae'r symiau a gaiff eu sicrhau yn flynyddol yn amrywio ac yn ddibynnol ar gyllidwyr a rhaglenni adfywio cyrff allanol.




Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi llwyddo:

- Sicrhau cyllideb o hyd at £1M i gydweithio gyda perchnogion eiddo ym Mangor er mwyn gwella edrychiad a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn y Ddinas;
- Cydweithio gyda partneriaethau er mwyn datblygu cynlluniau yng nghanol trefi mewn ymateb i Gynlluniau Creu Lle ar gyfer Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau ac Y Bala. Deilliant i hyn yn cynnwys sicrhau defnydd llawn o gyllid Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi i gefnogi y gwaith o uwchraddio Y Ganolfan a Cob Crwn ym Mhorthmadog, Llety Arall, Caernarfon ynghyd a gwaith rhagbaratoi i ofod allanol Cei Llechi Caernarfon a Gwersyll Rhufeinig, Bangor.
- Cwblhau gweithredu a chau cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd Ni (yn cynnwys 64 cynllun gan y Cynghorau Lleol) oedd yn cynnwys cynlluniau megis gwaith uwchraddio meysydd chwarae, toiledau a gorsafoedd bysiau ar draws y Sir, ynghyd a thrawstoriad eang o gynlluniau drwy Diwyllesiant2 (Prosiect Diwyllesiant- Cronfa Ffyniant Gyffredin) er budd cymunedau Gwynedd, gan uchafu ar yr allbynnau a chanlyniadau a ragwelwyd.
- Sicrhau trefniadau llywodraethu ar gyfer pecyn cynhwysfawr o brosiectau i'w gweithredu drwy gyllid Cronfa Effaith Balchder Bro (Llywodraeth Prydain), i gynnwys ail rownd o'r Gronfa i'r Cynghorau Lleol.
- Parhau i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi gan fonitro cynnydd cynlluniau partneriaid allanol tra yn gweithredu cyfres o ymyraethau canol trefi. Gwelwyd sawl prosiect megis Yr Aelwyd ym Mlaenau Ffestiniog, gwaith arwyddo Bethesda a'r Bloc Croeso yn Parc Padarn yn cael eu cwblhau.
- Cefnogi ar weithredu ar becyn o gynlluniau yn y maes arfordirol, drwy Gronfa Pethau Pwysig, Croeso Cymru, megis gwelliannau mynedfa Morfa Bychan, Uwchraddio Jeti Aberdyfi a gwelliannau i ffordd at y traeth yn Abersoch.
- Cydlynu y gwaith o drefnu a chynnal y balot ar gyfer Ardal Gwella Busnes Bangor a Hwb Caernarfon.

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


**Rheolwr Cyfrifol**: Esyllt Rhys Jones

**Pwrpas:** Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

**Mesurydd Perfformiad: Uwchraddio ac Adnewyddu Adeiladau Gwag**

**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am osod yr isadeiledd er mwyn symbylu twf economaidd ac adfywio canol trefi Gwynedd. Mae uwchraddio a dod ac adeiladau gwag, rhai yn adeiladau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir o amser, yn ôl i ddefnydd yn gosod yr isadeiledd ar gyfer adfywio a thwf economaidd.




Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi llwyddo:

- Gwaith o gydlynu'r Grŵp Eiddo Gwag trawsadrannol, adnabod ymyraethau a chefnogaeth, a symud ymlaen i ymateb i'r Cynllun Gweithredu wedi datblygu yn sylweddol;
- Fel rhan o Gynllun Peilot Eiddo Gwag Bangor, sicrhau cyllideb i gydweithio gyda perchnogion eiddo ym Mangor er mwyn gwella edrychiad a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn y Ddinas. Cydweithio gyda 6 perchennog i ddatblygu a gweithredu cynlluniau;
- Cefnogaeth i 15 eiddo mewn canol trefi i ddod yn ôl i ddefnydd yn cynnwys drwy gefnogaeth ariannol drwy Trawsnewid Trefi, Cronfa Ffyniant Bro, Cronfa Ffyniant Gyffredin a Benthyciadau Canol Trefi. Enghreifftiau yn cynnwys Y Maes, Criccieth, Aelwyd yr Unrdd Blaenau Ffestiniog a Lle Da, Caernarfon.
- Trefniadau gorfodaeth mewn lle gyda amryw eiddo er mwyn symud yr agenda yn ei blaen. Cefnogi cynlluniau i adnewyddu adeiladau;
- 13 adeilad yng nghanol trefi Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth ariannol i'w hadnewyddu a gwella eu delwedd yn sgil cefnogaeth Cyngor Gwynedd drwy gefnogaeth Trawsnewid Trefi a Chronfa Ffyniant Gyffredin. Enghreifftiau yn cynnwys Y Tŵr, Pwllheli, 4 eiddo yng Nghaernarfon a brynwyd (drwy gefnogaeth) gan Galeri Caernarfon, ac Eifion Stores, Blaenau Ffestiniog.
-

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol: L**lyr Jones


**Rheolwr Cyfrifol**: Lindsey Ellis


**Pwrpas :** Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau .

**Dangosydd Perfformiad: Nifer y grwpiau sydd wedi cael cyngor neu gefnogaeth – 335**

**Trosolwg o Berfformiad:**

Mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn brysur o fuddsoddi a chefnogi grwpiau cymunedol i wireddu prosiectau drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, datblygu cynlluniau 'Ardal Ni' ar draws y sir, a dyrannu dros £1.6m o grantiau. Mae integreiddio'r gwaith Cefnogi Pobl hefyd yn gam allweddol tuag at gryfhau cymunedau mwy gwydn a chynaliadwy.







Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Lindsey Ellis

**Pwrpas:** Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau


**Dangosydd Perfformiad: Nifer o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu - 337**

## Trosolwg blynyddol

**Cefnogaeth y gwasanaeth wedi galluogi buddsoddiad, diogelu asedau a datblygu prosiectau cymunedol, gyda ffocws ar gynaliadwyedd hirdymor.**

Mae'r tîm wedi cynorthwyo 337 o brosiectau cymunedol ar draws ystod eang o weithgarwch—o brosiectau cyfalaf i fentrau sy'n cryfhau gwydnwch cymunedol drwy weithgareddau lleol, llywodraethiant a datblygu modelau cynaliadwy a chreu swyddi.

Mae hyn wedi cynnwys galluogi 22 o brosiectau cyfalaf, cefnogi 11 i ddatblygu cynlluniau, a gweithio ar 7 cynllun i sicrhau defnydd cymunedol o asedau'r Cyngor.




## Enghreifftiau o brosiectau wedi'u cwblhau eleni:

- ✓ Menter Rabar (Abersoch) a Menter y Tŵr (Pwllheli)
- ✓ 2 gynllun trafnidiaeth gymunedol gynaliadwy ym Meirionnydd
- ✓ Gwelliannau i 7 neuadd bentref
- ✓ Uwchraddio Canolfan Rhyd Ddu a Lle'r Llan (Llan Ffestiniog)
- ✓ Estyniad i Feithrinfa Seren Fach, Brithdir
- ✓ Parc Chwarae Garndolbenmaen
- ✓ Pryniant hen lyfrgell Deiniolen gyda £300k o gyllid

Mae 'Ardal Ni' wedi datblygu'n gadarn gyda 13 cynllun gweithredu lleol yn fyw, rhwydweithiau'n datblygu mewn 9 ardal, a sgwrs barhaus gyda chymunedau i lywio blaenoriaethau.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned : Cefnogi Pobl

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

**Rheolwr Cyfrifol**: Lindsey Ellis

**Pwrpas:** Helpu pobl i ymdopi hefo heriau costau byw. Helpu pobl i gael cefnogaeth, gwybodaeth a mynediad i wasanaeth a chyngor sy’n sicrhau tegwch i bawb.




**Crynodeb 25/26**

- Rhaglen Gwytnwch Cymunedol £820k yn cefnogi pobl fregus ar draws Gwynedd
- Ffocws ar atal: costau byw, unigrwydd, sgiliau digidol
- Gweithio trwy rwydwaith eang o bartneriaid a hybiau cymunedol
- Effaith uniongyrchol ar les, annibyniaeth a gwasanaethau a gweithgareddau ataliol

**Cryfderau**

- Cydweithio cryfach rhwng partneriaid (CAB, Ability Net, Age Cymru, Mantell Gwynedd, Adra, cynlluniau trafnidiaeth cymunedol)
- Cyrraedd cymunedau anghysbell
- Cymorth personol (1:1) yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol

**Heriau**

- Galw a chymhlethdod anghenion yn cynyddu
- Pwysau ar adnoddau a chynaladwyedd rhai cynlluniau
- Amrywiaeth mewn ansawdd a darpariaeth ar draws ardaloedd

**Neges Allweddol**

Mae’r rhaglen yn cael effaith gadarnhaol glir ond mae angen cryfhau modelau darparu a sicrhau cynaladwyedd tymor hir sydd wedi arwain at gynllun trawsnewid Rhwydwaith Hybiau Cymunedol

**Talebau Argyfwng Charis**

101 o dalebau i gyd wedi eu creu, y mwyafrif o’r rhain yn dalebau bwyd
Cyfanswm ariannol y talebau: £5,011.80

**Hyrwyddwyr Lles** wedi helpu 498 o bobl i uchafu incwm ac wedi trefnu 4 digwyddiad costau byw ledled y sir

**Ymgyrch Credyd Pensiwn**

Households targeted: 162
Households claimed: 21
Total annual: £ 62,118.54
Total lifetime: £ 604,859.51

**Rhwydwaith Hybiau Cymunedol**

Cynllun i drawsnewid y Rhwydwaith Hybiau Cymunedol i fodel mwy integredig a chynaliadwy, gan ddefnyddio llyfrgelloedd fel prif bwynt mynediad a llunio model ardal wrth ardal yn seiliedig ar anghenion ac asedau lleol.

Yn ôl i’r dashfwrdd

# Adran Economi a Chymuned

**Pennaeth:** Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones a Roland Evans

**Rheolwr Cyfrifol**: Holl reolwyr yr adran

**Pwrpas:** Sicrhau fod staff yr adran yn cwblhau hyfforddiant mandadol 'Diogleu' a 'VAWDASV' yn unol a'u cytundeb cyflogaeth

**Mesurydd Perfformiad: Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol Diogelu a VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol)**

% Staff yr Adran Economi a Chymuned sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu

**90.1%**

% staff yr Adran Economi a Chymuned sydd wedi cwblhau hyfforddiant VAWDASV

**92.8%**

Yn ôl i'r dashfwrdd